

**Helen Morgan-Rees**  
**Pennaeth Dysgu a Chynhwysiad**  
**Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot**

**h.morgan-rees@npt.gov.uk**

**Annwyl Helen**

## **CYNLLUN STRATEGOL Y GYMRAEG MEWN ADDYSG 2014-17**

Diolch yn fawr i chi am gyflwyno copi drafft o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) 2014-17 .

Rydym yn cynnig y sylwadau anffurfiol a ganlyn ar y ddogfen ddrafft. Dylwn nodi na ddylech chi ystyried y sylwadau hyn fel gallu Gweinidogion Cymru dan y Ddeddf i gymeradwyo'r Cynllun a gyflwynwyd, cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu wrthod y Cynllun a pharatoi Cynllun arall. Wedi dweud hynny, rydym yn gobeithio y bydd y sylwadau yn rhoi syniad i chi o'r materion y bydd Gweinidogion Cymru yn eu hystyried wrth asesu CSGA Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd / Port Talbot.

**Yn gywir**

**Alun**

## **SYLWADAU ANFFURFIOL AR CSGA CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CASTELL-NEDD PORT TALBOT**

Ran amlaf, mae'r Cynllun yn cynnig arweiniad digon diogel ond bod angen cryfhau'r dystiolaeth dan Ddeilliannau 5 a 6. Mae'n addas bod y **Weledigaeth** yn datgan mewn termau penodol yr hyn y gobeithir ei gyflawni erbyn diwedd oes y cynllun cyfredol.

Rydym yn awgrymu y dylech roi sylw i'r pwyntiau canlynol:

### **Deilliant 1**

#### **T.7**

#### **Mesur y Galw**

Mae'r cynllun yn nodi'ch bod wedi cynnal arolwg o alw gan rieni am addysg cyfrwng Cymraeg ym mis Hydref 2013 ac y caiff cynllun gweithredu'i lunio erbyn mis Chwefror 2014 ar ôl dadansoddi'r asesiad. Nid yw'r cynllun yn cynnwys manylion cryno am strwythur yr arolwg, a dylai wneud hynny.

Byddwch yn gwybod fod Rheoliadau 2013 yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, mewn rhai amgylchiadau penodol, ofyn i awdurdod lleol gynnal asesiad

addysg cyfrwng Cymraeg, y cynhwyswyd ei ffurf hefyd yn y Rheoliadau. Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yn hwyrach y flwyddyn hon sut a phryd i ddefnyddio'r pwerau hyn mewn perthynas â'r holl awdurdodau lleol sy'n cwrdd â'r meini prawf a osodir yn y Rheoliadau.

## **Deilliant 2**

### **Dilyniant**

Nodwch fod tua 70% o blant sy'n mynd i gyfleusterau gofal plant cyfrwng Cymraeg yn symud i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Rydych yn bwriadu cynyddu'r ganran hon i 75% erbyn Medi 2015. Mae cyfle i gynnig sylwadaeth bellach ar y data a dderbyniwyd gan MM (Atodiad 2) a phennu a ydynt mewn unrhyw fodd yn dylanwadu ar gynllunio'r sir, er enghaifft y sefyllfa yn Nhrebannws.

Yn ystod y misoedd diwethaf derbyniodd awdurdodau lleol, drwy'r Uned hon, ddwy set o ddata gan Mudiad Meithrin am niferoedd a chanrannau plant sy'n mynychu Cylchoedd Meithrin ac yn trosglwyddo ohonynt i ysgolion cyfrwng Cymraeg. Tra bo'r rhan fwyaf o'r awdurdodau wedi atgynhyrchu'r data hwn yn Atodiad 2, nid oes fawr o drafodaeth ar ei arwyddocâd yng nghorff y rhan fwyaf o CSGA a gyflwynwyd. Bu'n anodd, felly, i fesur maint ei ddefnyddioldeb ar gyfer awdurdodau unigol yn y broses gynllunio. Mae'r rhesymau am hyn yn aneglur ond byddwn yn parhau i drafod â Mudiad Meithrin i weld a ydym yn gallu mireinio'r data ymhellach er mwyn galluogi awdurdodau i wneud gwell defnydd ohono yn eu CSAGA.

## **T10-11**

### **Trosglwyddo**

Dylid cynnwys crynodeb o ganlyniadau Prosiect Pontio Ystalyfera a gynhaliwyd dan nawdd y **Grant Cymraeg mewn Addysg** gan nodi pa effaith a gafodd.

## **Deilliannau 3 a 4**

### **T13**

### **CA5**

Nodir y bwriad i sicrhau bod 80% o ddysgwyr rhwng 16-19 yn astudio 2 bwnc neu fwy drwy gyfrwng y Gymraeg erbyn diwedd Medi 2016 (ac eithrio'r rhai sy'n astudio Safon Uwch Gwyddoniaeth neu Seicoleg) ond ni chynhwysir y camau y bwriedir eu dilyn i gyflawni hyn.

## **Deilliant 5**

Does dim targedau meintiol ar gyfer cynnydd dros y cyfnod **2015-17** yn yr adran hon. Mae datganiadau fel a ganlyn yn rhy gyffredinol - **T18** - '*Parhau i bennu targedau realistig gyda'r holl ysgolion ....*' a **T21** - '*Pennir targedau meintiol ar gyfer yr holl ddangosyddion perthnasol...*'. Rydym yn derbyn fod gosod targedau am dair blynedd yn gallu bod ychydig yn anturus ond mae gofyn i awdurdodau lleol, dan y trefniadau statudol, i adolygu'u cynlluniau bob blwyddyn. Bydd felly ddigon o gyfle i ddiwygio targedau, fel sy'n addas, a chynnwys sylwadaeth byr i esbonio unrhyw newidiadau.

Mae'n briodol tynnu cymhariaeth rhwng data sirol a data cenedlaethol ond annigonol yw gwneud hynny am un flwyddyn yn unig – dylid meddwl yn nhermau dwy neu dair blynedd er mwyn tynnu casgliadau rhesymol a hybu'r broses o osod targedau ystyrlon.

### **Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r ystafell ddosbarth**

Mae angen rhoi sylw pellach i unrhyw flaengareddau i hybu disgyblion i ddefnyddio Cymraeg Anffurfiol **o ddydd i ddydd** yn yr ysgolion – yn y sector cynradd ac uwchradd, hy. ar wahân i weithgareddau allgyrsiol ffurfiol..

### **Deilliant 6**

Braidd yn denau yw'r adran hon. Mae cyfle yma i roi ychydig mwy o sylwadaeth ar ganfyddiadau'r archwiliad a dod i'r afael â materion fel a ganlyn: Cryfderau? Diffygion? Agenda ar gyfer y Gweithgor? Targedau? Blaenoriaethau?

### **Deilliant 7**

Dylid croesgyfeirio at yr anhawster i ddenu staff i'r Ganolfan Trochi (T8)..

Fel y nodwyd uchod, sylwadau anffurfiol yw'r rhai blaenorol ar hyn o bryd. Nid wyf yn gallu dweud yn benodol beth fydd penderfyniad y Gweinidog ynghylch CSGA Sir Castell-nedd / Port Talbot nes y byddwch wedi cyflwyno'r fersiwn wedi'r ymgynghoriad ond mae'r sylwadau dechreuol hyn yn awgrymu, ar y gorau, y bydd efallai'n gweld ei ffordd yn glir i'w gymeradwyo, gyda diwygiadau tebyg i'r uchod. Os bydd yn gwneud hynny, byddwn yn ymgynghori â chi ymhellach.

## **Ymgynghori**

Nodaf fod eich awdurdod yn ymgynghori'n gyhoeddus ar ei CSGA rhwng 22.01.14 a 28.02.14. O ran ei hyd, mae paragraff 9(3) o Reoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 yn gofyn am gyfnod heb fod yn llai nag wyth wythnos. Gan fod hyn yn ofyniad statudol nid oes gennym ni na'r awdurdod lleol y disgrisiwn i'w gwtogi.

Byddwch yn cofio bod rhestr lawn o'r personau a'r cyrff statudol wedi'i chynnwys yn y canllawiau a ryddhawyd y llynedd. Gan fod y cyfnod ymgynghori'n diweddu'n agos iawn at 20 Mawrth 2014 neu'r tu hwnt iddo (y dyddiad y gofynnwyd gennym i awdurdodau addysg gyflwyno fersiwn ddiweddaraf eu Cynlluniau), erfyniwn arnoch i gyflwyno'ch Cynllun ôl-ymgynghori mor fuan â phosibl wedi'r dyddiad hwnnw, cyn belled â bod hyn, wrth gwrs, yn cyd-fynd â'ch bod chi'n cymryd ymatebion yr ymgynghori i ystyriaeth yn gydwybodol.

Fel y nodwyd uchod, sylwadau anffurfiol yw'r rhai blaenorol ar hyn o bryd. Nid wyf yn gallu dweud yn benodol beth fydd penderfyniad y Gweinidog ynghylch CSGA Sir Castell-nedd / Port Talbot nes y byddwch wedi cyflwyno'r fersiwn wedi'r ymgynghoriad ond mae'r sylwadau dechreuol hyn yn awgrymu, ar y gorau, y bydd efallai'n gweld ei ffordd yn glir i'w gymeradwyo, gyda diwygiadau tebyg i'r uchod. Os bydd yn gwneud hynny, byddwn yn ymgynghori â chi ymhellach.